

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
6 Ebrill 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Geraint R. Jones, Emyr Williams, Ifor Dylan Williams  
Cadeirio: Erddyn Davies  
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

**1. YMDDIHEURIADAU**

Eddie Huws, Ian Jones, Sioned Williams, Gwyneth Thomas

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Geraint R. Jones, y Cynghorydd Ifor Dylan William a'r Cynghorydd Erddyn Davies ddiddordeb yn eitem 6 – Rhoddion, gan fod ganddynt gysylltiad efo'r Eisteddfod genedlaethol, Canolfan Bro Llanwnda a'r Clwb Pêl Droed.

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth 2017, gyda'r sylwadau canlynol:-

Cywiro gwall teipio ym mrawddeg olaf 9.2 fel ei fod yn darllen

“Nid oes unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ardal Cyngor Cymuned Y Bontnewydd.”

Cywiro y seithfed paragraff o eitem 4, fel fod y frawddeg olaf yn nodi fod y bibell ffibr rhwng Pwllheli a glannau'r Fennai yn rhedeg drwy bentref Llanfaglan yn hytrach na gerllaw.

Ychwanegu “ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.” i ddiwedd brawddeg olaf paragraff 9.4

Cynnig: Ifor Dylan Williams

Eilio: Geraint R. Jones

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Arwydd Rhos Magdalen**

Ymddiheura Cyngor Gwynedd am yr oedi cyn gosod arwydd newydd. Mae'r arwydd newydd yn rhan o archeb o 40 arwydd sy'n cael eu cynhyrchu gyda'i gilydd, a gobeithir y bydd y rhain yn cyrraedd yn fuan. Bydd yr arwydd newydd yn cael ei osod yn fuan wedyn.

**4.2 Defnydd Hwyl y Bont o Gae Stanley**

Mae Hwyl y Bont wedi dod i gytundeb gydag Ysgol Gynradd Bontnewydd i ddefnyddio iard yr ysgol ar gyfer eu gweithgareddau. Felly ni fyddant angen defnyddio Cae Stanley.

#### **4.3 Torri coed Glan Beuno**

Yn ôl Cartrefi Cymunedol Cymru mae'r gwaith bellach wedi ei wneud, a hoffent ymddiheuro am yr oedi.

#### **4.4 Cyflwr Y Ganolfan**

Disgwylir i Bwyllgor Y Ganolfan roi adroddiad ar y gwaith atgyweirio sydd angen ei wneud, e.e. i'r gwresogyddion a'r gegin, a darparu mantolen ariannol erbyn y cyfarfod nesaf.

#### **4.5 Sgubo Strydoedd Lleol – Lôn Groes**

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd i ofyn am eu polisi sgubo strydoedd lleol, ac yn benodol i sgubo Lôn Groes, gan ei bod hi'n ymddangos nad yw'r Cyngor yn sgubo'r strydoedd i'r un graddau ag yr oeddynt yn ei wneud yn y gorffennol.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mawrth 2017**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

**5.2** Anfoneb 3105 Un Llais Cymru Modiwl 21 – Cyllid Llywodraeth Leol Estynedig £35.00

**5.3** Costau teithio Clerc i gwrs Un Llais Cymru Llangefni Modiwl 21 Cyllid Llywodraeth Leol Estynedig 42milltir x .42c = £17.64

**5.4** Anfoneb Wyn Williams, Glanhau Cysgodfanau Anfoneb 1633 Hydref 2016 – Mawrth 2017 £303.00

**5.5** Ad-dalu taliad Clerc am brynu **cyngorbontnewydd.cymru** am flwyddyn 2016/17 £13.19

**5.6** Ffi John Roberts, Archwiliwr Allanol, 2015/16 £69

**5.7** Owain Bebb a'i Gwmni £144.00 anfoneb dyddiedig 4 Ebrill 2017

**5.8** Ail-daliad 2016/17 costau cynnal a chadw Clwb Pêl Droed Bontnewydd £412.50

**5.9** Balans yn y Banc 4 Ebrill 2017- £8,606.35

## **6. RHODDION ARIANNOL**

Er bod cworwm o bedwar yn ddigonol i gynnal cyfarfod, pan fo gan Gynghorydd fuddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddo ef neu hi adael yr ystafell ac ni all bledeisio. Felly, rhaid fu gohirio ystyriaeth o rai o'r rhoddion ble roedd buddianrt, a byddant yn cael eu trafod yng nghyfarfod mis Mai.

Penderfynwyd gwneud y rhoddion canlynol ac i ystyried gweddill y rhoddin yng nghyfarfod mis Mai, pryd y gobeithir y bydd cworwm:-

- Ysgol Gynradd Bontnewydd - £250
- Cylch Meithrin Bontnewydd - £500
- Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd - £100
- Papur Bro Lleu - £50
- Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd - £50

**CYFANSWM £950**

## **7. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

**7.1** Cais cynllunio C16/1412/19/LL Dymchwel Ty Presennol ac adeiladu gwesty 12 llofft (3 llawr) gyda pwll nofio, Ty Glan Menai, Ffordd yr Aber, Caernarfon.

Cytunwyd i wrthwynebu'r cais yma'n gryf ar sail amhariaeth ar yr olygfa, gwelediad Y Foryd, problemau traffig, a gwendidau yn yr adroddiad iaith Gymraeg.

**7.2** Cais Cynllunio C14/0263/19/LL – amrywio amod rhif 3 er mwyn symleiddio dyluniad y fynedfa.

Cytunwyd gyda'r bwriad i ledu'r newid y fynedfa ar yr amod fod y dyluniad gwreiddiol yn cael ei ddilyn.

## **8. GOHEBIAETH**

- Sesiwn wybodaeth Ffrindiau Dementia

Mae Ffrindiau Dementia wedi cynnig dod i Fontnewydd er mwyn rhoi cyflwyniad are u gwaith unai i'r Cyngor Cymuned neu i'r trigolion lleol.

Cytunwyd mewn egwyddor y byddai'n fuddiol gwahodd Ffrindiau Dementia i Fontnewydd, a hynny mwy na thebyg yr un noson â chyfarfod o'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r Clerc drafod y mater gyda'r Cynghorydd Dafydd Iwan.

## **9. MATERION ERAILL**

### **9.1 Ceisiadau Cynllunio Jones Bros (C17/0011/19/MW C17/0107/19/LL) – sylwadau Cyngor Cymuned Waunfawr**

Ystyriwyd cynnwys llythyr Cyngor Cymuned Waunfawr atr gais cynllunio Penderfynwyd gofyn i'r Clerc holi Cyngor Cymuned Wanfawr pa atebion yr oeddynt wedi ei gael gan Gyngor Gwynedd i'w llythyr cyn penderfynu ar y camau nesaf.

### **9.2 Ffordd osgoi – archwiliad cyhoeddus**

Mae dyddiad wedi ei bennu ar gyfer archwiliad cyhoeddus ym mis Mehefin. Cyn hynny, bydd cyfarfod rhag-ymchwiliad yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon ar 25 Ebrill.

### **9.3 Ffordd osgoi – mynediad i gynnal arolygn tirlfesur Cae Stanley**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Gorchymyn yn rho hawl iddynt fynd ar Gae Stanley rhwng Ebrill a Hydref 2017 er mwyn cynnal arolygon yn ymwneud â'r ffordd osgoi. Fodd bynnag, nid ydynt wedi rhoi rheswm pam fod angen cynnal arolygon ar Gae Stanley, yn enwedig gofio ei fod beth pellter o lwybr y ffordd osgoi.

### **9.4 Sbwriel yn cael ei daflu o geir – Llanfaglan**

Ceir enghreifftiau lu o sbwriel yn cael ei aflu allan o geir yn Llanfaglan. Yn aml iawn mae'r sbwriel yn cynnwys cwpana a deunydd Costa a Mc Donald's. Cytunwyd fod sbwriel yn cael ei dalu allan o geir yn broblem gyffredin ar amryw o ffyrdd gwledig yr ardal.

Yn ogystal, elfen arall o'r broblem yn Llanfaglan yw'r lori ailgylchu fechan yn casglu gwastraff i'w ailgylchu, ond yn colli peth o'r gwastraff gan nad yw'r fflapiau yn cael eu cau yn iawn wrth i'r lori gael ei gyrru o gwmpas.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Costa a McDonald's ac hefyd Cyngor Gwynedd, yn nodi'r broblem ac yn gofyn am ddatrysiad.

### **9.5 Adolygiad y Comisiwn Ffiniau o Ffiniau etholiadol wardiau**

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n paratoi eu sylwadau ar fwriadau'r Comisiwn Ffiniau Etholiadol ar wardiau etholiadol Gwynedd. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd Mehefin.

Ymwneud â strwythur a ffiniau etholiadol wardiau etholiadol cynhorau sir y mae'r adolygiad yma, ac nid ffiniau etholaethau seneddol.

Penderfynwyd ysytried sylwadau Cyngor Gwynedd pan y byddnatyn cael eu cyhoeddi.

### **9.6 Diweddariad mast ffôn Bontnewydd**

Me gwaith cychwynnol wedi ei wneud o ran lleoli'r mast, ond mae'n debyg y bydd hi tua canol i ddiwedd yr haf tany bydd wedi ei osod ac yn weithredol.

## **9.7 Trefniadau etholiadol, dyddiad y cyfarfod nesaf a'r cyfarfod blyneddol**

### **Pump aelod sydd wedi eu hail enwebu:-**

Cynghorydd Erddyn Davies

Cynghorydd Dafydd Iwan

Cynghorydd Gwyneth Thomas

Cynghorydd Emyr Williams

Cynghorydd Ifor Dylan Williams

Ceir 11 sedd, ac felly bydd angen dechrau'r broses gyfethol yn dilyn cyfarfod mis Mai.

### **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cytunwyd ar nos Iau 11 Mai am 7 ym Y Ganolfan, Bontnewydd fel dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cynhelir y cyfarfod blyneddol bryd hynny hefyd.

